# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Craffu Lle**
**Neuadd y Sir Brynbuga NP15 1GA**
**Dydd Mercher, 11eg Mehefin, 2025, 5.30 pm**

| **Cynghorwyr yn Bresennol** | **Swyddogion yn Bresennol** |
|---|---|
| Cynghorydd Sir Jane Lucas<br><br>Cynghorydd Sir: Louise Brown, Tomos Davies, Lisa Dymock, Martyn Groucutt, Jackie Strong, Tudor Thomas, John Crook, Simon Howarth, Rachel Buckler, Ben Callard, Alistair Neill, Angela Sandles, Laura Wright, Richard John, Steven Garratt | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Paul Matthews, Prif Weithredwr<br>Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau<br>Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant<br>Nicholas Keyse, Rheolwr Datblygu Stadau<br>Sharran Lloyd, Rheolwr Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol<br>Jane Harvey, Connected Communities Manager |

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Sir Emma Bryn

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb.**

   Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Emma Bryn, gyda'r Cynghorydd Simon Howarth yn dirprwyo drosti.

2. **Datganiadau o Fuddiant.**

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Roedd pump siaradwr yn y Fforwm Agored i'r Cyhoedd, yn cynnwys dau gyfraniad gan aelodau o Gyngor Tref y Fenni a thri cyfraniad ar wahân gan aelodau o'r cyhoedd. Cafodd fideo a gyflwynwyd gan breswylydd cyn y cyfarfod hefyd ei ddangos a chafodd sylwadau ysgrifenedig eu darllen yn uchel gan y Rheolwr Craffu ar ran preswylydd arall. Roedd nifer sylweddol o'r cyhoedd yn bresennol y cyfarfod yn yr oriel gyhoeddus a hefyd ar ben y grisiau lle gallai pobl weld y ffrwd fyw.

   Rhoddodd y gwahanol gyfraniadau a wnaed i'r Fforwm Agored i'r Cyhoedd sylw i'r canlynol:

   **Cyngor Tref y Fenni:**

   - Mynegodd Cyngor Tref y Fenni gefnogaeth gref i gynlluniau'r Gymdeithas Fwslimaidd (MMCA), gan sôn am draddodiad y Fenni o oddefgarwch crefyddol a phwysigrwydd cydraddoldeb pob ffydd. Nodwyd fod MMCA wedi ymrwymo i gynnal a chadw yr adeilad a'i gadw ym mherchnogaeth y gymuned. Dywedwyd fod MMCA eisoes yn weithredol yn y dref ac yn anelu i greu canolfan gynhwysol sydd ar agor i bawb .

   - Dywedwyd y bu y Fenni yn dref nodded i gymunedau amrywiol, yn cynnwys teuluoedd o Syria, Afghanistan ac Wcráin.

**Preswylwyr a Busnesau:**

- Cododd nifer o siaradwyr gwestiynau am ailbwrpasu Llyfrgell Carnegie, adeilad hanesyddol bwysig a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer defnydd y cyhoedd fel llyfrgell.

- Beirniadodd nifer o siaradwyr y broses gan ddweud ei bod yn brin o dryloywder ac awgrymwyd fod angen ymgynghoriad cyhoeddus.

- Dywedodd rhai preswylwyr ac ymddiriedolwyr mai dim ond drwy'r cyfryngau cymdeithasol y daethant i wybod am y cynnig.

- Siaradodd preswylwyr am yr effaith arnynt a chodi pryderon am sŵn, llygredd golau a tharfu ar breswylwyr oedrannus a bregus mewn elusendai cyfagos, ac ailadrodd pryderon am ddiogelwch, yn arbennig liw nos.

- Soniodd nifer o siaradwyr am dagfeydd parcio presennol a phroblemau posibl gyda thraffig, fyddai'n tarfu ar fusnesau lleol a dosbarthu nwyddau.

- Cododd siaradwr gwestiwn am degwch rhoi prydles 30-mlynedd i MMCA o gymharu â phrydlesau byrrach i wasanaethau cymunedol eraill.

- Galwodd siaradwr am atal y broses nes y cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

4. **<u>Galw mewn benderfyniad y Cabinet ar 21 Mai 2025 yng nghyswllt gosod cyn Lyfrgell y Fenni.</u>**

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r cyhoedd am eu cyfraniadau ac esboniodd y byddai'r Pwyllgor yn awr yn dechrau ar ddadl ffurfiol am y galw mewn. Gofynnodd i'r Rheolwr Craffu roi esboniad byr o'r broses galw mewn fyddai'n cael ei dilyn yn y cyfarfod, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Dywedodd y Rheolwr Craffu y bwriedid i'r cyfarfod drafod penderfyniad a wnaed ond na ddaeth i rym yn ymwneud â gosod hen lyfrgell y Fenni. Rhoddwyd esboniad i bawb oedd yn bresennol am y broses galw mewn a threfn siarad.

Mae adroddiad penderfyniad y Cabinet yn rhoi cyd-destun llawn y materion allweddol yn gysylltiedig â'r penderfyniad a gymerwyd ar 21 Mai 2025, sydd ar gael drwy Agenda ar gyfer y Cabinet ar ddydd Mercher 21 Mai 2025, 4.30pm – Cyngor Modern. Ar gyfer cyd-destun serch hynny, y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 21 Mai 2025 oedd derbyn yr argymhellion canlynol:

Bod y Cabinet yn cytuno ar y canlynol:

i. Dyfarnu tendr y brydles i Gymdeithas Gymunedol Fwslimaidd Sir Fynwy (MMCA).

ii. (ii) Dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Adnoddau i negodi'r brydles yn unol â'r dyfarniad tendr.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau oedd wedi galw'r penderfyniad i mewn i gyflwyno eu rhesymau dros wneud hynny, fel a nodir yn y Ffurflen Gais am Alw Mewn:

1. **Diffyg Craffu Cywir/Proses Briodol ac Ymgynghori â'r Gymuned:**

- Cafodd y penderfyniad hwn ei gymryd heb gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor(au) Craffu priodol cyn ei gymeradwyo gan y Gabinet. O gofio am sensitifrwydd, maint a hyd y brydles, mae hyn yn fethiant sylweddol o oruchwyliaeth ddemocrataidd.

- Dylai penderfyniadau diddordeb cyhoeddus o'r maint hwn fynd drwy graffu llawn i sicrhau ymgynghori â'r gymuned a thryloywder.
- Mae angen ymgysylltu democrataidd â'r gymuned oherwydd diffyg craffu cyhoeddus oherwydd nad oedd angen caniatâd cynllunio felly nad yw preswylwyr/busnesau/sefydliadau ffydd a'r cyhoedd yn gyffredinol yn cael y cyfle arferol i roi sylwadau ar faterion megis tagfeydd traffig, parcio, sŵn a chyfyngiadau ar oriau gweithredu.
- Cafodd y Cyngor a'r Blaengynllun ei ddiwygio ar 21 Hydref 2024 ar Ddyfodol Llyfrgell y Fenni ar gyfer adroddiad i'r Cabinet ar 6 Tachwedd 2024. Nid oedd ar agenda'r Pwyllgor Lle ar 21 Hydref 2024, a roedd y cyfarfod nesaf ar 7 Tachwedd 2024 ar ôl yr Adroddiad i'r Cabinet ar 6 Tachwedd 2024 .
- Mae'r adroddiad i'r Cabinet ar 6 Tachwedd 2024 yn rhoi manylion yr effaith gadarnhaol na chafodd ei adlewyrchu yn y gwahoddiad i dendro gyda'r cynnig i gynnig y safle ar gyfer defnydd cymunedol neu fasnachol i gynyddu'r cyfleoedd agored sydd ar gael ac sydd o ddiddordeb i bobl o bob oedran a gallu.
- Yn ychwanegol, ni chafodd yr eitem ei chadw ar flaengynllunydd y Cyngor a'r blaengynllunydd am y cyfnod a ddylai ac nid oedd hyd yn oed wedi ei gynnwys yn agenda'r Pwyllgor Lle ar 22 Mai pan gafodd adroddiadau eraill y Cabinet ar 21 Mai eu cynnwys.
- Mae'r Gwahoddiad i Dendro yn tanlinellu'r statws cynllunio gyda'i ddosbarth defnydd D1 cyfredol (fel llyfrgell) ond nid yw'n rhoi manylion llawn yr opsiynau masnachol ar newid defnydd yn cynnwys defnydd manwerthu a chyfanwerthu, er y cyfamod ar y tir yn caniatáu defnydd o'r fath.

2. **Amseriad Dadleuol a Chyfnod Cyfyngedig ar y Farchnad:**

- Dim ond am bedair wythnos ym mis Rhagfyr 2024 y cafodd yr eiddo ei farchnata, yn ystod cyfnod sy'n adnabyddus am lai o ymgysylltu cyhoeddus a busnes oherwydd tymor yr Ŵyl.
- Gall y ffenestr gyfyngedig fod wedi llesteirio cysylltiad teg â'r farchnad, gan efallai effeithio ar led ac ansawdd cyflwyniadau.

3. **Pryderon am Werth Gorau a Cynaliadwyedd Ariannol:**

- Mae prydles o 30 mlynedd am £500 y mis (£6,000 y flwyddyn) ar adeilad hanesyddol amlwg mewn lleoliad canolog yn codi pryderon difrifol am Werth Gorau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i "wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff ei swyddogaethau eu gweithredu, gan roi ystyriaeth i gyfuniad o ddarbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd."
- Er fod tendr wedi cynnig yr un ffigur rhent, mae'n aneglur os yw hyn yn dangos gwir werth y farchnad. Ni fu unrhyw brisiad annibynnol ac mae ymroddiad 30-mlynedd heb ddiwydrwydd dyladwy o'r fath yn gyn-amserol.
- Diffyg ansicrwydd am yr angen am adeilad cyngor dros gyfnod mor hir.

Amlinellodd yr Aelodau Galw Mewn eu rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn (megis uchod) a gwnaed y pwyntiau ychwanegol canlynol:

<u>Y Cynghorydd Howarth</u>

- Tanlinellodd y Cynghorydd Howarth bwysigrwydd trylowyder a phroses gywir ym mhenderfyniadau'r Cyngor. Nododd na chafodd y llyfrgell ei gynnwys yn y cynllunydd am gyfarfodydd craffu y Cyngor, oedd yn atal aelodau rhag trafod ei drosglwyddo i rheoli asedau.
- Dywedodd y Cynghorydd Howarth y gwnaed y penderfyniad i drosglwyddo'r llyfrgell i rheoli asedau heb roi cyfle i aelodau'r Cyngor graffu arno a'i drafod. Awgrymodd y cafodd penderfyniadau blaenorol eu tynnu o'r cynllunydd, a chredai fod hynny yn tanseilio tryloywder ac atebolrwydd.
- Galwodd y Cynghorydd Howarth am newidiadau yng nghyfansoddiad y Cyngor i sicrhau fod penderfyniadau yn parhau ar y cynllunydd ac y cynhelir craffu cywir arnynt.

- Mynegodd bryder fod y diffyg ymgynghori a thryloywder wedi siomi pobl Sir Fynwy a'r Fenni

Y Cynghorydd Buckler

- Tanlinellodd y Cynghorydd Rachel Buckler bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol Llyfrgell Carnegie i dref y Fenni.
- Soniodd am ddiffyg ymgynghori a chyswllt gyda'r gymuned parthed y penderfyniad i newid y llyfrgell yn fosg.
- Rhannodd y Cynghorydd Buckler adborth gan breswylwyr oedd yn teimlo wedi eu datgysylltu, wedi eu hanwybyddu ac yn poeni am broblemau parcio a'r diffyg gwybodaeth a roddwyd iddynt.
- Beirniadodd y broses gwneud penderfyniadau, gan nodi y cafodd preswylwyr eu hysbysu gyntaf drwy'r papur lleol neu Facebook, a chredai fod hynny'n annerbyniol.
- Holodd y Cynghorydd Buckler os yw'n briodol dyfarnu tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer yr adeilad heb graffu priodol a mewnbwn gan y gymuned.
- Cododd bryderon am hyfywedd ariannol a diwydrwydd daladwy y penderfyniad, yn cynnwys diffyg manylion ar grantiau a chyllid.
- Galwodd y Cynghorydd Buckler am safonau uwch o dryloywder a chraffu ym mhenderfyniadau'r Cyngor, gan adlewyrchu disgwyliadau preswylwyr Sir Fynwy.

Y Cynghorydd Louise Brown

- Tanlinellodd y Cynghorydd Brown bwysigrwydd craffu, proses briodol ac ymgynghori â'r gymuned ym mhenderfyniadau'r Cyngor.
- Soniodd am ddiffyg craffu cyhoeddus oherwydd nad oedd y penderfyniad angen caniatad cynllunio, oedd yn atal preswylwyr a busnesau rhag rhoi sylwadau ar faterion fel traffig, parcio, sŵn a chyfyngiadau ar faterion fel traffig, parcio a sŵn a chyfyngiadau ar oriau gweithredu.
- Awgrymodd y Cynghorydd Brown fod afreoleidd-dra gweithdrefnol, tebyg i nad oedd gwaredu â'r llyfrgell wedi ei restru ar flaengynllunydd y Cyngor ar gyfer y cyfarfod craffu, ac ystyriai fod hynny yn torri rheolau gweithdrefnol.
- Awgrymodd mai marchnata cyfyngedig fu ar yr eiddo, gan nodi iddo gael ei farchnata am lai na phedair wythnos mewn cyfnod o lai o ymgysylltu oherwydd tymor yr Ŵyl.
- Cwestiynodd y Cynghorydd Brown agweddau ariannol y penderfyniad, gan ddadlau fod y rhent o £6,000 y flwyddyn yn sylweddol is na'r rhent marchnad rhesymol ym mhapurau cyllideb y Cyngor ei hun oedd yn amcangyfrif rhwng £20,000 a £25,000 y flwyddyn. Galwodd am brisiad annibynnol o'r eiddo ac awgrymodd y dylai'r Cyngor ddefnyddio asiant arbenigol i hwyluso gosod yr adeilad, fel yr amlinellir yn strategaeth rheoli asedau y Cyngor.
- Soniodd y Cynghorydd Brown hefyd fod polisi Rheoli Asedau y Cyngor ar warediadau'n ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol cael yr ystyriaeth orau.
- Dywedodd y Cynghorydd Brown mai dim ond dosbarth defnydd D1 oedd y gwahoddiad i dendro yn ei gynnwys ac ar gyfer defnyddiau eraill i ddim ond cysylltu â stadau eto mae adroddiad y Cabinet ar waredu yn sôn am ddefnydd cymunedol a hefyd ddefnydd masnachol.
- Tanlinellodd y Cynghorydd Brown yr angen am ymgynghori â'r gymuned cyn llunio'r brydles, yn hytrach na wedyn, i sicrhau tryloywder a mewnbwn gan y cyhoedd.

Gwaddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Callard i ymateb yn ffurfiol. Wrth wneud hynny, gwnaeth y Cynghorydd Callard y pwyntiau allweddol canlynol:

- Esboniodd y Cynghorydd Callard y daethpwyd â'r penderfyniad i ddyfarnu'r brydles i'r Cabinet i'w wneud yn fwy amlwg, er y gallai swyddogion fod ei wneud dan bwerau wedi

eu dirprwyo. Nododd fod y Cyngor wedi cytuno i lawer o brydlesau heb graffu neu alw mewn cyn dyfarnu, gan awgrymu fod y broses hon yn gyson ag arferion y gorffennol.

- Tanlinellodd y Cynghorydd Callard y cafodd yr adeilad ei ddatgan yn adeilad dros ben ac na chafodd y penderfyniad ei alw mewn bryd hynny. Roedd y broses dendro yn dryloyw a dewiswyd y cynnig gyda'r sgôr uchaf. Dywedodd y byddai bod angen craffu ar gyfer pob prydles yn anymarferol a gwrthgynhyrchiol, gan efallai oedi defnydd asedau y Cyngor.
- Trafododd y Cynghorydd Callard bryderon am barcio, gan gydnabod y broblem, ond gan ddweud fod lleoliad yr adeilad yn addas ar gyfer y defnydd arfaethedig, gyda meysydd parcio cyfagos ar gael. Dywedodd bod MMCA yn gwybod am yr angen i liniaru effeithiau parcio ac yn bwriadu cysylltu â'r gymuned ar ôl llofnodi'r brydles.
- Amddiffynnodd y Cynghorydd Callard y cyfnod marchnata, gan ddweud fod nifer y tendrau a gafwyd yn dangos y bu cyswllt digonol â'r farchnad. Dadleuodd yn erbyn yr angen am brisiad annibynnol neu asiantau allanol, gan sôn am alluedd mewnol y Cyngor a'r cyfyngiadau ariannol. Mynegodd y Cynghorydd Callard hyder yn ymrwymiad MMCA i'r gymuned a'u gallu i gynnal a chadw yr adeilad.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Nick Keyse, Rheolwr Datblygu Stadau a Chynaliadwyedd i roi sylwadau ychwanegol:

- Eglurodd Nick fod cytundebau prydles hir yn arferol ar gyfer asedau cymunedol, gan eu bod yn rhoi sicrwydd am sicrhau cyllid grant gan sefydliadau tebyg i'r Loteri Genedlaethol a Chwaraeon Cymru. Esboniodd fod cyllidwyr grant angen prydlesau hirdymor i sicrhau y caiff buddsoddiadau eu diogelu ac nad ydynt yn destun newidiadau mewn defnydd.
- Ychwanegodd Nick fod telerau terfynol y brydles, yn cynnwys agweddau fel cymalau torri ac adolygiadau rhent, yn dal i gael eu negodi a'u dirprwyo i swyddogion. Nododd y gallai'r cymal torri danseilio'r sicrwydd sydd ei angen ar gyfer cyllid grant, gan awgrymu efallai na fyddai cymalau o'r fath yn cael eu cynnwys yn nhelerau y brydles derfynol.

<u>Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau oedd yn ymweld:</u>

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau i ddechrau gan Aelodau'r Pwyllgor ac yna gan Aelodau eraill oedd yn bresennol, a gafodd eu hateb gan y Cynghorydd Callard a Nick Keyse.

- Tanlinellodd y Cynghorydd Davies bwysigrwydd sicrhau fod y cytundeb prydles yn gydnaws gyda dyletswydd cyllidol y Cyngor i weithredu er budd ariannol gorau trethdalwyr. Cyfeiriodd at papur rheoli asedau o fis Chwefror 2023 oedd yn dweud fod Llyfrgell Carnegie yn flaenoriaeth ar gyfer cyfleoedd masnachol, gan amcangyfrif fod ei werth rhent yn £25,000 i £30,000 y flwyddyn ar werth gwerthu posibl o dros £300,000. Roedd yn cwestiynu os oedd y cytundeb prydles a gynigir yn gydnaws â'r nod o gynyddu i'r eithaf botensial masnachol yr eiddo. Holodd os oedd tendr arall y barnwyd ei fod yn fwy hyfyw yn fasnachol na'r un llwyddiannus. Gofynnodd hefyd am nifer y prydlesau a wnaeth gyflawni cyfraddau marchnad ymysg y 37 prydles yr ymrwymodd y Cyngor iddynt ers 2022.

*Cydnabu'r Cynghorydd Callard nad oedd y tendr yn cyflawni'r gwerth masnachol a amcangyfrifwyd i ddechrau, ond tanlinellodd bwysigrwydd cefnogi asedau cymunedol, hyd yn oed os yw hynny'n golygu hepgor peth incwm. Cadarnhaodd mai'r tendr llwyddiannus oedd yr un mwyaf cystadleuol yn ariannol ymysg y tendrau ar y rhestr fer. Nid oedd gan y Cynghorydd Callard ddata penodol ar faint o'r 37 prydles oedd wedi cyflawni cyfraddau marchnad ond awgrymodd y gellid adolygu'r wybodaeth hon mewn cyfarfod o'r pwyllgor craffu perfformiad a throsolwg.*

- Mynegodd y Cynghorydd Groucutt falchder yn ymroddiad y Cyngor i wneud Sir Fynwy a'r Fenni yn gymuned nodded, gan amlygu integreiddio pobl o ardaloedd lle mae gwrthdaro yn gadarnhaol i'r gymuned leol. Tanlinellodd y byddai gan y fosg arfaethedig nifer o ddibenion, yn cynnwys bod yn ganolfan addysgol, cymdeithasol, economaidd a hamdden, nid dim ond yn fan gweddi. Nododd dwf sylweddol y boblogaeth Fwslimaidd yn Sir Fynwy a'u rôl bwysig yn y gymuned, yn arbennig yn y Fenni gyda'i ysbyty mawr. Soniodd am ddefnydd anaddas yr adeilad yn y gorffennol fel uned cyfeirio disgyblion a dadleuodd yn erbyn gadael yr adeilad yn wag i ddirwyo. Cefnogai'r syniad o'r gymuned Fwslimaidd yn defnyddio'r adeilad, gan ei weld yn gyfraniad cadarnhaol i'r dref.

- Ailadroddodd y Cynghorydd Brown ei phryder am gyfnod marchnata cyfyngedig o lai na phedair wythnos yn ystod tymor yr Ŵyl ac y gallai hynny fod wedi effeithio ar ehangder ac ansawdd cynigion. Cwestiynodd hyfywedd ariannol y brydles, gan nodi gwahaniaethau rhwng yr amcangyfrif o rent marchnad ac union swm y brydles. Ailddatganodd ei barn fod angen prisiad annibynnol a chyfnod o ymgynghori â'r gymuned cyn cwblhau'r brydles. Dywedodd nad oedd y gwahoddiad i dendro yn rhoi manylion yr ystod o ddefnyddiau posibl ar gyfer yr eiddo, ac y medrai hynny fod wedi effeithio ar yr ystyriaeth orau a gafwyd.

*Cydnabu'r Cynghorydd Callard heriau ymgynghori wrth ymrwymo i brydlesau a thanlinellodd yr angen i gymryd camau gyda rhesymau da drostynt o fudd i'r gymuned. Soniodd y cynigiwyd yr adeilad ar brydles atgyweirio lawn, sy'n fuddsoddiad sylweddol ac efallai na fyddai hynny'n ddeniadol i bob busnes. Dywedodd y Cynghorydd Callard y byddai defnydd a gynigir ar gyfer yr adeilad fel canolfan gymunedol a mosg yn dod â phobl i ganol y dref, gan fod o fudd i fusnesau lleol heb gystadlu gyda nhw. Pwysleisiodd fod y broses dendr yn deg a thryloyw ac mai'r tendr llwyddiannus oedd yr un mwyaf cystadleuol yn ariannol ymysg y tendrau ar y rhestr fer. Awgrymodd y Cynghorydd Callard fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn golygu fod angen defnyddio adnoddau mewnol ar gyfer prisiadau a marchnata yn hytrach na llogi ymgynghorwyr allanol.*

- Ailadroddodd y Cynghorydd Howarth ei bryderon am ddiffyg tryloywder a chraffu cywir yn y broses benderfynu. Holodd am y broses ymgynghori, gan ofyn os cafodd Cyngor Tref y Fenni neu ymgyngoreion eraill eu cynnwys cyn cyfarfod y Cabinet. Mynegodd yr aelod rwystredigaeth gydag amseriad penderfyniadau, gan nodi y cynhaliwyd y cyfarfod o'r pwyllgor craffu drannoeth y cyfarfod Cabinet, ac nad oedd hynny'n galluogi adolygu cywir.

*Esboniodd y Cynghorydd Callard bod dirprwyo pwerau ar gyfer dyfarnu prydlesau fel arfer yn syrthio ar swyddogion, ond aethpwyd â'r penderfyniad i'r Cabinet i roi mwy o amlygrwydd iddo oherwydd pwysigrwydd yr adeilad. Soniodd na chafodd y penderfyniad i ddatgan yr eiddo yn adeilad dros ben ei alw mewn, gan awgrymu y dylid bod wedi codi pryderon ar y cam hwnnw. Dywedodd y Cynghorydd Callard y byddai'n wrthgynhyrchiol dod â phob penderfyniad am brydlesau i'r pwyllgor craffu ac y byddai hynny yn llesteirio gallu'r Cyngor i weithredu'n effeithlon fel landlord. Roedd yn cydnabod y problemau gyda pharcio ond tanlinellodd fod meysydd parcio cyfagos i'r adeilad a bod MMCA yn gwybod am yr angen i liniaru'r effaith ar y gymuned leol. Eglurodd y Cynghorydd Callard y byddai'r ymgynghoriad gyda'r gymuned yn digwydd ar ôl llofnodi'r brydles, gan ei fod yn rhoi sicrwydd i'r grŵp i gynnal gwaith maes. Cadarnhaodd y caiff yr ymgyngoreion ar gyfer adroddiad y Cabinet eu rhestru ar waelod yr adroddiad ac iddo ffonio Prif Swyddog Cyngor Tref y Fenni er cwrteisi pan gyhoeddwyd y papurau.*

- Cwestiynodd y Cynghorydd Dymock gyfnod y brydles ac ar ba bwynt y cytunwyd ar brydles 30-mlynedd. Mynegodd bryderon am y diffyg ymgynghori a thryloywder, gan awgrymu fod hon yn broblem gyson sydd angen ei thrin. Gofynnodd yr aelod pa gamau a gymerwyd i asesu os y byddai'r cyfnod marchnata cyfyngedig yn arwain at gynrychiolaeth deg o brydlesau posibl. Holodd pam na chafodd yr eiddo ei gadw'n gyson

ar Flaengynllunydd y Cyngor. Gofynnodd yr aelod am eglurhad ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu sicrhau tryloywder ac ymgysylltu parhaus yn dilyn y penderfyniad.

*Esboniodd y Cynghorydd Callard y cafodd y penderfyniad i ddatgan yr eiddo yn adeilad dros ben ei wneud yn y Cabinet a dywedodd eto y gellid bod wedi gwneud penderfyniad i alw mewn ar y cam hwnnw. Esboniodd fod cyfod prydles 30-mlynedd yn rhan o gyflwyniad y tendr ac nid yn rhywbeth a gafodd ei gynnig i dechrau gan Gyngor Sir Fynwy. Soniodd fod cyfnod prydles hir yn galluogi tenantiaid i gyrchu cyllid grant, sy'n hanfodol ar gyfer cynnal a chadw a buddsoddi yn yr adeilad. Tanlinellodd y Cynghorydd Callard fod y cytundebau prydles yn cynnwys dulliau i adolygu rhai agweddau, sicrhau gwerth am arian a chydymffurfiaeth gyda'r telerau. Dywedodd y caiff llawer o adeiladau treftadaeth y sir eu cynnal drwy gyllid grant, a bod prydlesau hir yn helpu i sicrhau hynny. Pwysleisiodd nad yw'r Cyngor yn y busnes o gadw adeiladau yn wag a bydd yn gwaredu ar asedau pan fo'n ddoeth gwneud hynny. Cydnabu hefyd heriau ymgynghori wrth ymrwymo i brydlesau a chwestiynodd ymarferoldeb gweithredol dod â phob penderfyniad prydles i bwyllgor craffu. Awgrymodd y gallai craffu yn dilyn y penderfyniad fod yn fwy addas ond tanlinellodd yr angen am gamau gweithredu gyda rhesymau da drostynt sydd o fudd i'r gymuned. Dywedodd y Cynghorydd Callard eto y cafodd yr adeilad ei gynnig ar brydles atgyweirio lawn, sy'n fuddsoddiad sylweddol ac efallai nad fyddai hynny yn ddeniadol i bob busnes.*

- Cwestiynodd y Cynghorydd Buckler os oedd y broses ymgynghori yn ddigonol, gan ddweud nad oedd llawer o bobl yn gwybod am y penderfyniad ac yn teimlo nad oedd yn dderbyniol ymgynghori ar ôl y penderfyniad. Tanlinellodd bwysigrwydd Llyfrgell Carnegie i'r gymuned a chwestiynodd pam na ofynnwyd i breswylwyr y Fenni am eu dewisiadau ar gyfer defnydd yr adeilad. Ategodd yr aelod y gwnaed y galw mewn oherwydd nad oedd y broses yn cynnwys digon o ymgysylltu â'r gymuned.

*Cydnabu'r Cynghorydd Callard yr her o sicrhau fod pawb yn gwybod am benderfyniadau'r Cyngor, gan nodi fod llawer o bobl yn brysur gyda'u bywydau ac efallai nad ydynt yn dilyn gweithgareddau'r Cyngor yn agos. Amddiffynnodd y penderfyniad i esgyn y mater i'r Cabinet, gan ddadlau fod hynny'n gam i roi mwy o sylw i'r penderfyniad. Esboniodd y Cynghorydd Callard ei bod yn anodd canfod defnydd ar gyfer yr adeilad fyddai'n plesio pawb a thanlinellodd gyfrifoldeb aelodau etholedig i wneud penderfyniadau er budd gorau'r gymuned. Awgrymodd na fyddai mynd â'r mater i'r Cyngor llawn wedi newid y canlyniad ac ailfynegodd ei hyder yn y broses a ddilynwyd.*

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Laura Wright, yr Aelod ward lleol, i wneud datganiad:

<u>Y Cynghorydd Wright</u>

Datganodd y Cynghorydd Wright ei chefnogaeth i'r penderfyniad i osod hen adeilad y llyfrgell ar brydles i MMCA, gan nodi iddi bleidleisio o blaid y brydles yn ei chyfarfod cyntaf o'r Cabinet. Tanlinellodd bwysigrwydd craffu a gwneud penderfyniadau tryloyw, ond amddiffynnodd y gweithdrefnau sefydledig a ddilynwyd wrth ddyfarnu'r brydles. Dywedodd y Cynghorydd Wright mai cynnig MMCA gafodd y sgôr uchaf yn y matrics gwerthuso, oedd yn asesu galw, hyfywedd, addasrwydd defnydd a statws ariannol. Roedd yn cydnabod pryderon preswylwyr a busnesau am ddiffyg ymgynghori ond dywedodd fod MMCA wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r gymuned cyn defnyddio'r adeilad. Cyfeiriodd y Cynghorydd Wright at bryderon am barcio, sŵn a llygredd golau, gan ddweud y byddai cynrychiolwyr MMCA yn barod i gwrdd gyda phreswylwyr i drafod y materion hyn. Dywedodd eto y cafodd y brydles ei dyfarnu yn seiliedig ar broses gystadleuol a bod y cynnig a ddewiswyd yn diwallu dyletswyddau'r Cyngor ar optimeiddio ariannol a lles y gymuned. Daeth y Cynghorydd Wright i ben drwy annog aelodau'r pwyllgor i gefnogi'r penderfyniad, gan bwysleisio'r gwerth cymdeithasol a'r cynhwysiant y byddai'r brydles yn eu rhoi i'r gymuned.

## Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Craffu esbonio'r seiliau dros symud i sesiwn gaeedig, pe byddai'r Pwyllgor yn dymuno hynny. Esboniodd y Rheolwr Craffu y broses i'r cyhoedd a'r rhai oedd yn bresennol, gan sôn am Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n caniatáu eithrio'r cyhoedd am drafodaeth o wybodaeth a eithriwyd, cyn belled â bod swyddog wedi gwneud asesiad fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na budd y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth.

Gofynnodd y Cadeirydd i awdur yr adroddiad asesu'r budd cyhoeddus ac i gynghori'r pwyllgor am y sail dros yr eithrio. Esboniodd y byddai wedyn yn gofyn i'r pwyllgor dderbyn penderfyniad y swyddog a phleidleisio arno cyn symud i sesiwn wedi ei heithrio.

Dywedodd y Swyddog Priodol fod y sail dros eithrio wedi eu seilio ar baragraff 14 y Ddeddf Llywodraeth Leol sy'n cyfeirio at wybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol yn cynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno. Cadarnhaodd fod yr asesiad hwn yn cefnogi symud i sesiwn gaeedig i drafod gwybodaeth ariannol neu fusnes sensitif.

Pleidleisiodd y pwyllgor i symud i sesiwn gaeedig drwy bleidlais o 5-4. Cafwyd egwyl fer tra gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd i adael y cyfarfod. Gadawodd y Cynghorwyr Wright a Garratt y cyfarfod.

## Rhan 2 y Cyfarfod (Cyhoeddus) ~ Canlyniad ffurfiol y craffu

Croesawodd y Cadeirydd y cyhoedd yn ôl i'r cyfarfod. Diolchwyd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion. Ar ran y Pwyllgor mynegodd y Cadeirydd eu gwerthfawrogiad i aelodau'r cyhoedd am eu cyfraniadau a'u hamser yn mynychu.

Dywedodd y Cadeirydd fod gan y Pwyllgor dri dewis ar gael iddynt, sef:

1. Derbyn y penderfyniad.
2. Cyfeirio'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet i'w ail-ystyried (gyda rhesymau)
3. Cyfeirio'r penderfyniad i'r Cyngor llawn.

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar yr opsiynau uchod. Yn dilyn y bleidlais, cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Aelod Cabinet i'w ail-ystyried, am y rhesymau canlynol:

Gofynnir i'r Aelod Cabinet i gynnal proses ail-dendro gyda'r amodau canlynol:

- **Prisiad Annibynnol**: Dylid cynnal prisiad annibynnol o incwm rhent.
- **Amserlen Tendr**: Dylid cytuno ar amserlen resymol a gyfer y broses dendr.
- **Arolwg o'r Adeilad**: Dylid cynnal arolwg annibynnol o'r adeilad i ganfod cyflwr yr adeilad a chostau gwaith angenrheidiol.
- **Cydymffurfiaeth Cynnal a Chadw**: Sicrhau y caiff yr adeilad ei gynnal a chadw i gydymffurfio gyda'i bwysigrwydd, gan alluogi darpar gynigwyr i feddu ar yr holl ffeithiau fel y gallant wneud cynnig yn unol â hynny.
- **Ymgynghori â'r Gymuned**: Mae'n hanfodol ymgynghori â'r gymuned, gan gynnwys preswylwyr lleol a busnesau mewn penderfyniadau yn ymwneud ag adeilad Llyfrgell Carnegie.
- **Pwysigrwydd Hanesyddol**: Rhoddir ystyriaeth briodol i bwysigrwydd hanesyddol a chofebol yr adeilad i'r Fenni a'i phobl ac y dylid ailystyried y posibilrwydd o werthu'r adeilad a'i gynnwys yn y broses ymgynghori gyda phobl y Fenni

**Cofnodwyd y pleidleisiau fel a ganlyn:**

- Pleidleisiodd pedwar Aelod i dderbyn penderfyniad yr Aelod Cabinet.
- Pleidleisiodd pedwar Aelod i gyfeirio’r mater i’r Aelod Cabinet gyda rhesymau.
- Pleidleisiodd un Aelod i gyfeirio at y Cyngor Llawn.

Gweithredodd y Cadeirydd yr hawl i bleidlais fwrw wrth gyfeirio’r mater yn ôl i’r Aelod Cabinet (Opsiwn 2).